Systemau: rheoli prosiect Uned 9.2 system docynnau blaen y tŷ

Ynglŷn â'r uned::

Dyluniwyd yr uned hon i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni prosiect yn systematig. Y prosiect yw dylunio system docynnau blaen y tŷ ar gyfer theatr.

Mae disgyblion yn dysgu i gynllunio camau prosiect, a sut i ddefnyddio siart lif i gofnodi eu penderfyniadau. Maen nhw'n defnyddio manyleb ddylunio fel sylfaen i'w gwaith a meini prawf i werthuso eu llwyddiant. Maen nhw'n datblygu llawer o sgiliau, yn enwedig rheoli amser a datrys problemau. Ar ddiwedd yr uned maen nhw'n cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig sy'n crynhoi eu prosiect a'i lwyddiant.

Mae'n rhaid cyfyngu'r prosiect i dri tasg: mae hyn yn caniatáu i athrawon sicrhau bod eu dosbarth yn dysgu dulliau prosiect fel grŵp cyfan. Cyflawnir gwahaniaethu drwy'r gwaith a gyflawnir gan ddisgyblion unigol ar gyfer pob un o'r tasgau a bennwyd o fewn fframwaith yr uned hon. Disgwylir i'r uned hon gymryd tua 16 awr.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn uned bontio o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4. Mae'n adeiladu ar sgiliau generig a ddysgwyd mewn unedau blaenorol. Ceir cyfle i ddisgyblion mwy galluog i ddangos sgiliau uwch, e.e.drwy gynhyrchu arweinlyfr i bobl eraill. Mae'r uned hon yn paratoi disgyblion ar gyfer ymagweddau trefnus i reoli prosiect a gwaith grŵp ar gyfer cyfnod allweddol 4.

Disgwyliadau
Ar ddiwedd yr uned hon

bydd mwyafrif y disgyblion: yn cynhyrchu adroddiad prosiect lle cyflawnir y gwaith drwy ddilyn ymagwedd systematig yn fanwl (bydd pob cam o'r system yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno'n dda, rhoddir yr ateb terfynol ar waith ac mae'r ateb yn ymarferol); defnyddio amrywiaeth o offer TGCh a ffynonellau gwybodaeth; darparu tystiolaeth o werthuso ynghyd ag awgrymiadau i'w wella; ystyried manteision a chyfyngiadau o'r offer TGCh a defnyddio hyn wrth werthuso llwyddiant y prosiect.

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant: yn cynhyrchu adroddiad prosiect lle cyflawnir y gwaith drwy ddilyn ymagwedd systematig (bydd pob cam o'r system yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno, rhoddir yr ateb terfynol ar waith, gyda chymorth, a'i gyflwyno ar gyfer diben a chynulleidfa penodol); defnyddio amrywiaeth o offer TGCh a ffynonellau gwybodaeth; darparu tystiolaeth o werthuso.

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant: yn cynhyrchu adroddiad prosiect gan ddefnyddio ymagwedd systematig sydd wedi'i gwella drwy gael ei gwerthuso'n feirniadol ar bob cam (bydd pob cam o'r system yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno'n dda, rhoddir yr ateb terfynol ar waith yn effeithiol a bydd yr ateb yn ymarferol a gellir ei ailgyflawni); yn darparu tystiolaeth o weithio a gwerthuso'n annibynnol ar bob cam o'r system, gyda thystiolaeth a ddefnyddir i hysbysu ar asesiadau o ansawdd y gwaith yn y dyfodol; yn cynnwys arweinlyfr i ddefnyddwyr sy'n fyr ac yn glir i'w ddefnyddio gan eraill sy'n rheoli digwyddiad ysgol gwahanol.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Geirfa ac Adnoddau

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon, bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu'r canlynol yn gywir:
- *Gantt*
- *Man Gwybodaeth (MW)*

Siarad a gwrando – gallai disgyblion, trwy'r gweithgareddau:
- gofyn mathau gwahanol o gwestiynau i ymestyn syniadau a mireinio syniadau
- trafod a gwerthuso tystiolaeth sy'n gwrthdaro i ffurfio safbwynt cytbwys
- dilyn dadl, gan wneud nodiadau sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol wedyn
- datrys problem, ystyried dewisiadau eraill, strwythuro cynlluniau a threfnu gweithgaredd grŵp

Mae'r adnoddau'n cynnwys:
- adnoddau sydd wedi'u rhwydweithio gan gynnwys argraffwyr a chysylltiadau i'r rhyngrwyd
- sganwyr, camerâu digidol
- amrywiaeth o offer generig a ddefnyddiwyd mewn unedau blaenorol

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

Gweithgaredd 1			
• bod angen mynd i'r afael â phroblemau'n systematig gyda chamau datblygiad sydd wedi'u diffinio'n glir • gofyn mathau gwahanol o gwestiynau i ymestyn meddwl a mireinio syniadau	• Esboniwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i fod yn gyfrifol am weinyddu cynhyrchiad drama ysgol. • Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt gynnal sesiwn trafod syniadau i nodi'r prif feysydd gwaith mae angen ei wneud mewn prosiect o'r fath. • Casglwch syniadau'r plant o'r grwpiau i benderfynu ar ba drefn y dylid cyflawni'r tasgau. Gofynnwch i ddisgyblion gofnodi'r wybodaeth hon yn eu llyfrau gwaith i gyfeirio'n ôl ati yn nes ymlaen.	• deall bod angen mynd i'r afael â phrosiectau'n systematig	• Er bod cynhyrchiad drama ysgol wedi'i ddefnyddio fel enghraifft yma, gellir defnyddio'r cynllun hwn gydag unrhyw ddigwyddiadau ysgol sy'n cynnwys cynllunio ariannol, cyfathrebu da a thrin data.
• bod angen datblygu ateb effeithiol a chywir i broblem benodedig	• Gan ddefnyddio syniad cynhyrchiad drama ysgol, cyflwynwch y cysyniad o ddifinio problem drwy ddangos enghraifft. Gofynnwch i ddisgyblion, mewn trafodaeth agored, lunio datganiad o'r broblem. Gallai'r datganiad olaf fod 'Mae ein hysgol yn mynd i drefnu cynhyrchiad drama y bydd angen ei hyrwyddo a'i gynllunio'n ariannol. Mae'n rhaid i'r ysgol o leiaf adennill ei chostau ac yn ddelfrydol wneud elw.'	• ystyried natur problem a chynhyrchu adroddiadau sy'n dangos diffiniadau clir o'r canlyniadau disgwyliedig	• Dylai datganiad o'r broblem ffurfio tudalen gyntaf yr adroddiad –amlinelliad prosiect. Cyfyngwch y disgyblion i ddwy ochr o bapur A4 i ddechrau a gellid gofyn iddynt fireinio'r adroddiad i un ochr papur A4 ar gyfer eu gwaith cartref *e.e. penawdau, pwyntiau bwled*. Efallai byddai o gymorth cynnwys taflen gyda phwyntiau i'w nodi ynghylch y strwythur dymunol.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 2			
• er mwyn rheoli'r gweithgaredd yn effeithiol, mae'n rhaid dadansoddi'r prosesau a'r canlyniadau angenrheidiol i gyflawni'r ateb ynghyd â'r drefn y mae angen cyflawni'r tasgau hyn ynddynt • gellir cynrychioli atebion fel diagram llif system.	• Esboniwch fod diffinio'r broblem a nodi'r meini prawf llwyddiant yn rhan o'r ymagwedd system i ddatrys problemau. Esboniwch fod sawl cam i'r broses: – diffinio'r broblem – dadansoddi anghenion – cynllunio'r broses – casglu gwybodaeth – dylunio – gweithredu – gwerthuso • Esboniwch y gellir cynrychioli'r broses hon fel siart llif a dangoswch ddigon o enghreifftiau • Esboniwch sut i ddilyn arddangosiad, gwneud nodiadau priodol, a thrafod a gwerthuso tystiolaeth sy'n gwrthdaro i gyrraedd safwynt cytbwys. • Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau bach i ddadansoddi'r prosesu a'r canlyniadau sydd wrth wraidd datrys y broblem hon. Gan ddefnyddio siartiau llif enghreifftiol, gofynnwch iddynt lunio eu diagram llif eu hunain ar gyfer y tasgau hyn. • Er mwyn atgyfnerthu'r angen am ymagwedd systematig, gofynnwch i'r disgyblion gymharu canlyniadau gwreiddiol eu sesiwn trafod syniadau yn erbyn eu diagramau llif. Pwysleisiwch y manteision o ddefnyddio ymagwedd strwythuredig.	• cynhyrchu'r ateb i'r broblem drwy ei dorri i lawr i brosesau a chanlyniadau • ei bod yn bosibl cynrychioli'r rheiny'n ddiagramatig	• Byddai'n ddefnyddiol pe bai taflen waith gydag elfennau gwahanol o ddiagram llif arni gan ddisgyblion. • Dylai'r disgyblion nodi nifer o brosesau a chanlyniadau sydd â'r elfennau canlynol, *e.e. dadansoddiad cost neu fodel o'r gyllideb, gwybodaeth blaen y tŷ, system docynnau*. Defnyddir y tair elfen hon yn nes ymlaen yn y prosiect.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

• bod yn rhaid cael diffiniad da iawn o'r meini prawf llwyddiant er mwyn gwerthuso pob proses a chanlyniad	• I bob tasg a nodwyd, gofynnwch i'r disgyblion gynnig un maen prawf neu fwy am ei lwyddiant, a thywys y disgyblion drwy ddarparu enghreifftiau perthnasol.	• gosod meini prawf manwl ar gyfer pob tasg i'w galluogi gael eu gwerthuso yn nes ymlaen.	• Gall y meini prawf llwyddiant gynnwys, *e.e.:* – *gellir gosod pris y tocynnau ar sail canlyniadau'r modelu* – *gellir diweddaru a chael mynediad i gronfeydd data'n hawdd* – *posteri'n cynnwys gwybodaeth gywir a manwl* – *gellir gwneud post-dafliad drwy ddefnyddio nodwedd postgyfuno sy'n hawdd i'w defnyddio*

© Tîm CwricwlwmTGCh 2005. GwasanaethEffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 3			
• bod angen manyleb ddylunio i bob tasg i gyflawni'r ateb yn effeithiol	• I bod tasg sydd wedi'i nodi yn y fanyleb ddylunio, gofynnwch i'r disgyblion nodi'r nodweddion allweddol, y cynnwys neu'r elfennau angenrheidiol er mwyn bodloni'r meini prawf llwyddiant a benderfynwyd arnynt yn gynharach • Gofynnwch iddynt gyflwyno eu casgliadau yn ffurff diagram llif. Cuddiwch elfennau diagram llif ar y pwynt hwn. • Rhowch enghraifft o un diagram llif posib ar gyfer tasg a chynnal trafodaeth ynghylch ei strwythur.	• deall yr angen am fanylebau dylunio clir • cyflwyno'r rhain fel diagram llif	
Gweithgaredd 4			
• bod yn rhaid rhoi dulliau rheoli prosiect ar waith i gyflawni ateb effeithiol, gan gynnwys rheoli amser, wrth lunio eu gwaith	• Cyflwynwch gysyniad rheoli prosiect ac amser drwy enghreifftiau. Sicrhewch fod y disgyblion yn deall bod rhaid cyflawni rhai tasgau gyda'i gilydd ac eraill yn olynol. • Esboniwch wrth y disgyblion sut i ddatrys problemau, ystyried dewisiadau eraill, strwythuro cynlluniau a threfnu gweithgareddau grŵp. • Dangoswch sut i ddefnyddio diagram Gantt i gynrychioli'r broses yn ddarluniadol • Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio eu diagram llif i lunio eu diagram Gantt eu hunain. • Rhowch diagram Gantt i ddisgyblion sy'n seiliedig ar y tair prif dasg a amlygwyd yng ngweithgareddau 2 a 3. Dyma'r un a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweddill y prosiect ond y tasgau eu hunain yw'r rheiny a nodwyd gan y disgyblion yn rhan gyntaf gweithgaredd 2. • Dewch â'r cam cynllunio i ben drwy drafod manteision ymagwedd systematig wrth gyflawni gwaith prosiect.	• cyfrannu at waith grŵp i ddylunio, cynllunio, cyflawni ac adrodd yn ôl ar dasg • deall rôl rheoli prosiect a rheoli amser • dangos y paratoi cychwynnol i sicrhau bod pob elfen o'r dyluniad yn cael ei chynnwys mewn gweithdrefn effeithiol wrth roi ateb ar waith	• Mae'n rhaid cyfeirio at ganlyniadau dysgu y manylwyd arnynt yn gynharach. Mae hwn yn bwynt pwysig oherwydd mae'n caniatáu gwahaniaethu o ran cyrhaeddiad.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 5			
• rhoi dyluniad ar waith • adolygu eu gwaith ar y gweill yn feirniadol a'i addasu yn ôl yr angen • bod angen gwerthuso gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn y meini prawf a'r manylebau gwreiddiol • bod angen cofnodi unrhyw newidiadau i'r ateb i'w wella yn y dyfodol	• Gan ddefnyddio data a baratowyd, gofynnwch i'r disgyblion roi eu dyluniad modelu ariannol ar waith. • Anogwch y disgyblion i roi cynnig ar fodelau mwy soffistigedig. Dylai disgyblion mwy galluog edrych ar senarios 'beth fyddai'n digwydd pe bai…' yn ogystal ag awtomeiddio rhai tasgau ar gyfer defnyddwyr eraill. Dylai pob disgybl geisio cynhyrchu arweinlyfr o'r model i'w ddefnyddio fel gwaith cartref a'i werthuso yn erbyn y meini prawf gwreiddiol. • Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi'r hyn y maen nhw'n ei wneud ac yn ei benderfynnu o ran addasu eu dyluniad fel maen nhw'n gweithio • Ar ddechrau pob gwers, rhowch amser i adolygu dulliau taenlen gan gofio'r gwaith a gyflawnwyd eisoes a'r gwaith sydd ar y gweill.	• eu bod yn feirniadol o'u gwaith eu hunain ac yn defnyddio eu casgliadau'n adeiladol • yn gallu gwerthuso eu gwaith yn briodol • yn adolygu eu gwaith yn seiliedig ar ganlyniad gwerthusiad • trafod a gwerthuso tystiolaeth sy'n gwrthdaro	• Dylid darparu'r data mewn ffyrdd gwahanol. Dylai'r gwybodaeth mae ei hangen am fodel ariannol syml fod yn glir. Hefyd dylai gwybodaeth anuniongyrchol, fod gan y disgyblion mwy galluog a bydd angen iddynt wneud casgliadau neu peth dadansoddiad ychwanegol. Hefyd byddai'n briodol chwilio am wybodaeth rhywle arall, fel yr adran ddrama a'r llyfrgell, i annog gwaith ymchwil dwysach.
Gweithgaredd 6			
• adolygu eu gwaith sydd ar y gweill yn feirniadol a'i addasu yn ôl yr angen • bod angen gwerthuso gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn y meini prawf a'r manylebau gwreiddiol • bod angen cofnodi unrhyw newidiadau i'r ateb a gyfnodwyd i'w wella yn y dyfodol	• Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir am y digwyddiad i ddod, gofynnwch i'r disgyblion roi eu system wybodaeth blaen y tŷ ar waith. • Anogwch y disgyblion geisio nifer o ddulliau o gyfathrebu'r wybodaeth. Dylai'r disgyblion mwy galluog roi cynnig ar greu system wybodaeth a seilir ar y we neu fan gwybodaeth (MG) gan ddefnyddio meddalwedd cyflwyno. Dylid cynhyrchu arweinlyfrau i ddefnyddwyr i ganiatáu i'r system gael ei hailddefnyddio yn ystod digwyddiad gwahanol. Gellir cyflawni'r rhain fel gwaith cartref. • Ar ddechrau pob gwers, rhowch amser i adolygu'r dulliau cyflwyno gan gofio'r gwaith a gyflawnwyd eisoes a'r gwaith sydd ar y gweill.	• eu bod yn feirniadol o'u gwaith eu hunain ac yn defnyddio'u casgliadau'n adeiladol • yn gallu gwerthuso eu gwaith yn briodol • yn adolygu eu gwaith yn seiliedig ar ganlyniad gwerthsiad	

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 7			
• adolygu eu gwaith sydd ar y gweill yn feirniadol a'i addasu yn ôl yr angen • bod angen gwerthuso gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn y meini prawf a'r manylebau gwreiddiol • bod angen cofnodi unrhyw newidiadau i'r ateb a gofnodwyd i'w wella yn y dyfodol	• Gofynnwch i ddisgyblion roi eu dyluniadau ar gyfer dosbarthu tocynnau ar waith • Anogwch y disbyblion i ddatblygu'r ateb er mwyn iddo allu cael ei addasu at ddibenion eraill, *e.e. ffôn, ffacs, e-bost ac wyneb yn wyneb*. Dylai'r disgyblion mwy galluog greu cynlluniau seddau y gellir eu defnyddio i gofnodi'r holl seddau a werthwyd yn rhyngweithiol, cronfeydd data i gofnodi gwerthiannau na wnaed gan berson, systemau postgyfuno i argraffu tocynnau neu gyfeiriadau a system gyfrifo bosib i gofnodi'r holl werthiannau tocynnau a gwariant • Ar ddechrau pob gwers, rhowch amser i adolygu'r dulliau a ddefnyddwyd yn sgîl gwaith a gyflawnwyd eisoes a gwaith sydd ar y gweill.	• eu bod yn feirniadol o'u gwaith eu hunain ac yn defnyddio eu casgliadau'n adeiladol • yn gallu gwerthuso eu gwaith yn briodol • yn adolygu eu gwaith yn seiliedig ar ganlyniad gwerthsiad	• gallai gwaith cartref gynnwys ysgrifennu arweinlyfrau ar sut i ddefnyddio'r system.
Gweithgaredd 8			
• sut i werthuso a chyflwyno prosiectau	• Cyfeiriwch yn ôl at y meini prawf gwreiddiol. • Gofynnwch i ddisgyblion weithio ar gyflwyno eu prosiectau, eu gwerthusiadau a dogfennau i'r defnyddwyr, os yw'n briodol, i gyflawni lefelau uwch o gyrhaeddiad.	• cwblhau prosiect sy'n dangos bod y cyflwyniad yn glir ac yn rhesymegol • dangos gwerthusiad o'r system ddatblygu • dangos sut gellir gwneud gwelliannau neu nodi datblygiadau i'r dyfodol drwy werthuso	

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT
Curriculum
Team

Tîm
Cwricwlwm
TGC

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg